SFHGEN39

# Cyfrannu at weithio'n effeithiol mewn tîm amlddisgyblaethol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu a chynnal gwaith hwylus a chyson y tîm amlddisgyblaethol er mwyn cyflawni nod y gofal gorau i unigolion. Caiff hyn ei gyflawni trwy feithrin hinsawdd lle y mae aelodau'n cyfnewid gwybodaeth a barn yn agored ymhlith ei gilydd.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys
4. sicrhau bod eich arferion gwaith yn cydymffurfio â phenderfyniadau a wneir gan y tîm
5. cyfathrebu'n effeithiol ag aelodau eraill y tîm a chydnabod eu barn yn adeiladol
6. darparu gwybodaeth glir, gywir a digonol am waith sy'n mynd rhagddo i alluogi aelod arall o'r tîm i gyflawni'i waith yn gywir
7. rhoi help a chyngor i gydweithwyr pan fyddant yn gofyn am hynny a phan fydd hyn yn gyson â'ch cyfrifoldebau eraill
8. sicrhau yr eir i'r afael yn gadarnhaol ag unrhyw broblemau yn y tîm, ac yr ymdrinnir â nhw yn adeiladol
9. cynnal cyfrinachedd gwybodaeth yn gysylltiedig ag aelodau eraill y tîm
10. nodi enghreifftiau o arfer ac awgrymu gwelliannau
11. nodi eich anghenion datblygu eich hun o gymharu â galwadau'r rôl a galwadau/gofynion y tîm
12. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. strwythurau, rolau a chyfrifoldebau rheoli'r sefydliad
7. y gweithdrefnau a'r dulliau sy'n gysylltiedig â chydlynu'r timau rhyngddisgyblaethol ac amlddisgyblaethol o fewn gwasanaethau ac ar draws gwasanaethau
8. y cyfraniad y gall gwahanol broffesiynau ei wneud at werthuso a chynllunio gofal unigol
9. anghenion gwybodaeth pobl eraill yn y tîm
10. strwythurau cyfathrebu yn y sefydliad
11. sut i ofyn cwestiynau penagored, gwrando'n astud a rhoi crynodeb yn ôl
12. sut i wneud penderfyniadau ar sail safbwyntiau lluosog tîm
13. sut mae timau effeithiol yn gweithio
14. egwyddorion ac ymarfer dynameg grŵp
15. y gwahanol nodweddion y mae'n rhaid i wasanaethau eu cael er mwyn bodloni anghenion rhywedd, diwylliant, iaith neu anghenion eraill pobl
16. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

Cyfrannu at weithio’n effeithiol mewn tîm amlddisgyblaethol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHGEN39 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr ac Uwch Swyddogion, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt a Galwedigaethau Technegol, Gweithwyr iechyd proffesiynol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lechyd, Galwedigaethau Gwasanaethau Personol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Cyfres/Set** | iechyd cyffredinol |
| **Geiriau Allweddol** | Amlddisgyblaethol, tîm, gweithio |